

Enw: John Humphreys Davies

Dyddiad geni: 1871

Dyddiad marw: 1926

Rhiant: Frances Davies (née Humphreys)

Rhiant: Robert Joseph Davies

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: llyfryddwr, llenor, ac addysgwr

Maes gweithgaredd: Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd yn y Cwrt Mawr, Llangeitho, 15 Ebrill 1871, trydydd mab [R. J. Davies](#) a Frances ei wraig. Cafodd ei addysg yn ysgol y pentref, yn Ysgol Lewis, Pengam, Ysgol Coleg y Brifysgol, Llundain, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a Choleg Lincoln, Rhydychen. Yn ddiweddarach galwyd ef yn fargyfreithiwr gan Lincoln's Inn. Ymdaflodd i'r bywyd cyhoeddus yn r ieuanc iawn; daeth yn ynad heddwch dros Sir Aberteifi ac yn drysorydd cymanfa gyffredinol y Methodistiaid Calфинаidd cyn cyrraedd ei 30 oed. Dyfnhawyd ei ddiddordeb ym mywyd a llenyddiaeth Cymru drwy ei gyfathrach yn Rhydychen ag [O. M. Edwards](#) ac wedi hynny â [T. E. Ellis](#), ei frawd-yng-nghyfraith. Yn 1905 penodwyd ef yn gofrestrydd Coleg Prifysgol Cymru, ac yn 1919 yn brifathro; daliodd y swydd honno hyd ei farw. Gyda [Syr John Williams](#) ac eraill yr oedd yn un o'r phrif weithwyr yn y mudiad er sicrhau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac yn un o'i phrif gynheiliaid ar ôl ei sefydlu. Y mae ei gasgliad (Cwrtmawr) o lyfrau a llawysgrifau yn awr yn Ll.G.C. Codwyd ef yn 1908 yn aelod o'r Comisiwn ar yr Eglwys yng Nghymru : yr oedd yn uchel siryf Ceredigion yn 1911 ac yn gadeirydd ei chyngor sir yn 1917. Gwasnaethodd ar Fwrdd Canol Cymru am flynyddoedd lawer, a bu'n is-gadeirydd ei bwyllgor gwaith. Un o'i brif ddiddordebau oedd casglu llyfrau a llawysgrifau Cymraeg, ac yn y maes hwn ef oedd y prif awdurdod yng Nghymru. Ymhlith ei aml gyhoeddiadau ceir *Rhai o Hen Ddewiniaid Cymru*, 1901, *A Bibliography of Welsh Ballads*, 1911, a *Rhestr o Lyfrau gan y Parch. William Williams, Pantycelyn*, 1918. Golygodd *The Letters of Lewis, Richard, William and John Morris, of Anglesey*, 1907-9, ail gyfrol *Gweithiau Morgan Llwyd*, 1908 - golygasid y gyfrol gyntaf gan [T. E. Ellis](#) - a *The Autobiography of Robert Roberts ('Y Sgolor Mawr')*, 1923, a *The Letters of Goronwy Owen*, 1924. Yr oedd ganddo wybodaeth ddi-ail am fywyd Cymru yn ystod chwarter cyntaf yr 20fed ganrif, ac ychydig oedd yr agweddau ar y bywyd hwnnw na chyffyrddodd ef â hwynt a'u haddurno. Yr oedd yn un o sylfaenwyr *Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, ac ymddengys yn hwnnw lawer o'i gyfraniadau; am 10 mlynedd (1910-20) ef oedd golygydd *Cylchgrawn Cymdeithas Lyfryddol Cymru*. Yn ystod ei dymor fel cofrestrydd bu ganddo gysylltiad agos â'r gweithgarwch addysgol yn siroedd rhanbarth y coleg; pan ddaeth yn brifathro llwyddodd, drwy ei nodweddion personol arbennig ac amrywiaeth ei brofiad, i ddwyn y coleg a'r brifysgol yn nes at y genedl Gymreig. Bu farw yng Nghwm Cynfelyn, ger Aberystwyth, 10 Awst, a'i gladdu yn Llangeitho.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Adnabyddiaeth bersonol

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [John Humphreys Davies](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Cwrtmawr Manuscripts](#)

Archifau LIGC: [Cwrtmawr Music Manuscripts](#)

Archifau LIGC: [Cwrtmawr Deeds](#)

VIAF: [55053878](#)

Wikidata: [Q6240404](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

